Rhif: WG39461

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Rhyddhad ardrethi i elusennau ar gyfer ysgolion ac ysbytai yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 29 Mai 2020

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar ddiwygio rhyddhad ardrethi i elusennau ar gyfer ysgolion ac ysbytai yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu'n uniongyrchol i'r cyfeiriad isod:<br><br>Cangen Polisi Trethi Leol<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>E-bost: LGF1Consultations@llyw.cymru |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i:<br><br>LGF1Consultations@llyw.cymru<br>Cangen Polisi Trethi Leol<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Walter Lane
Wimslow
Chesire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


| | | Tud |
|---|---|---|
| | Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd | **5** |
| **1** | Cyflwyniad | **6** |
| **2** | Cyd-destun | **7** |
| | *Ardrethi Annonmestig yng Nghymru* | ***7*** |
| | *Rhyddhad Ardrethi I Elusennau* | ***7*** |
| | *Polisi Presennol ar draws y DU* | ***8*** |
| | *Ysgolion Annibynnol a Phreifat* | ***9*** |
| | *Ysgolion a Gynhelir ac Ysgolion Sector Chyoeddus* | ***9*** |
| | *Ysbytai Preifat* | ***10*** |
| | *Ysbytai Cyhoeddus* | ***10*** |
| | *Sylwadau* | ***10*** |
| **3** | Y Gymraeg | **12** |
| **4** | Hawliau Plant | **12** |
| **5** | Arall | **13** |
| **6** | Y Camau Nesaf | **13** |
| | Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | **14** |
| | Cwestiynau | **15** |

## RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG CYLLID A'R TREFNYDD

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu system o drethi lleol sy'n diwallu anghenion y dyfodol, gan sicrhau tegwch i ddinasyddion a busnesau ac ar yr un pryd, cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol.

Rydym ni i gyd yn talu trethi am ein bod ni i gyd yn elwa ar y buddiannau cyffredinol y mae'r trethi hyn yn talu amdanynt – y gwasanaethau sy'n addysgu ein plant, gofalu am yr henoed, gwaredu ein gwastraff, goleuo ein strydoedd ac amddiffyn ein cymunedau. Er mwyn cynnal y gwasanaethau hyn, mae'n iawn bod pawb sy'n gallu cyfrannu yn gwneud hynny mewn ffordd deg a bod y cyfrifoldeb trymaf yn disgyn ar y rhai â'r ysgwyddau llydanaf. Mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod y rhai sy'n methu â chyfrannu cymaint yn cael eu trin yn deg, a chydag urddas a pharch.

Mae ardrethi annomestig yn rhan annatod o system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru, gan gyfrannu dros £1 biliwn y flwyddyn tuag at gost gwasanaethau lleol. Mae'n hanfodol bod y cyllid hwn yn cael ei gynnal a bod y rhai sy'n gallu talu yn gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn eu helpu i dalu eu hardrethi, ac mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn parhau i gael ei thargedu'n effeithiol ac i fod yn addas at y diben. Mae sicrhau bod ein polisi ardrethi annomestig yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu newidiadau yn y gymdeithas yn rhan o raglen waith fesul cam yr ydym yn ei chynnal er mwyn diwygio'r fframwaith cyllido ehangach ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Rhyddhad ardrethi i elusennau yw un o'r mathau o ryddhad gorfodol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (rhyddhad elusennol). Ar hyn o bryd, mae hyn yn darparu dros £60 miliwn o gymorth, gan leihau biliau talwyr ardrethi cymwys 80%.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn trafod rôl rhyddhad i elusennau wrth gefnogi ysgolion ac ysbytai, gan ystyried y math o gyrff sy'n cael rhyddhad ac a yw'n briodol i rai ysgolion ac ysbytai gael rhyddhad i elusennau ac i eraill beidio. Wrth bwyso a mesur unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol byddwn yn ystyried Egwyddorion Treth Llywodraeth Cymru sy'n sicrhau y caiff refeniw ei godi yn y ffordd decaf bosibl; yn glir, yn sefydlog ac yn syml; yn cydweithredu ac ymwneud; ac yn cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

Drwy amlinellu fy nghynigion ar gyfer diwygio rhyddhad elusennol, rwy'n rhoi cyfle i gynrychiolwyr ysgolion ac ysbytai, sefydliadau proffesiynol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill fynegi eu barn. Edrychaf ymlaen at eich cyfraniadau ar y mater pwysig hwn a bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cynlluniau rhyddhad a ddarparwn yn deg ac yn briodol.

# 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*, rydym yn ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu system drethu leol deg sy'n cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol. Rydym yn cyflawni'r ymrwymiad hwn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys rhyddhad wedi'i dargedu a mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i wella'r ffordd y caiff y system ardrethi annomestig ei gweinyddu. Rydym yn cydweithio i wella effeithiolrwydd a chefnogi cynaliadwyedd cyllid llywodraeth leol.

1.3. Wrth gyhoeddi ein Cyllideb ar gyfer 2019-20, gwnaethom nodi ein bwriad i ymgynghori ar ryddhad ardrethi i elusennau ar gyfer ysgolion ac ysbytai sector preifat, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal â sefydliadau cyfatebol yn y sector cyhoeddus.

1.4. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o eiddo annomestig, mae'n ofynnol i'r mwyafrif o ysgolion ac ysbytai sector cyhoeddus dalu ardrethi annomestig. Wrth wneud hynny, maent yn gwneud cyfraniad pwysig i gyllido gwasanaethau lleol.

1.5. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion ac ysbytai sector preifat yn elwa ar ryddhad ardrethi i elusennau. Mae'r ysgolion ac ysbytai hyn hefyd â hawl i amrywiaeth o fuddiannau ariannol eraill sy'n gysylltiedig â statws elusennol. Gallant hefyd weithredu'n fasnachol i godi refeniw drwy godi ffioedd a thâl. Nid ydym yn gwarafun unrhyw rai o'r manteision hyn iddynt ond mae'n briodol ystyried a ddylai rhai sefydliadau gyfrannu at gost gwasanaethau lleol drwy dalu ardrethi ar eu heiddo, fel y mae disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau eraill ei wneud. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar hyn.

1.6. Mae nifer o ysgolion ac ysbytai sector cyhoeddus hefyd yn cael rhyddhad elusennol gorfodol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio eich barn ynghylch a yw'n briodol bod yr eiddo hwn yn cael ei drin yn wahanol i eiddo sector cyhoeddus arall.

1.7. Bydd unrhyw newidiadau i gymhwysedd y sefydliadau hyn i gael rhyddhad elusennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar symud ymlaen at system drethu leol decach, lle mae rhwymedigaeth yn seiliedig ar y gallu i dalu a lle caiff cyfraniadau eu rhannu'n gymesur.

## 2. CYD-DESTUN

**Ardrethi Annomestig yng Nghymru**

2.1. Treth leol yw ardrethi annomestig, a elwir weithiau'n ardrethi busnes, sy'n helpu i dalu am wasanaethau lleol. Codir ardrethi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig, gan gynnwys eiddo sy'n berchen i'r sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw neu'n cael ei gweithredu ganddynt, nid dim ond ar eiddo a ddefnyddir at ddibenion masnachol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl eiddo annomestig yn cael ei brisio ar sail gyson at ddibenion trethu lleol. Mae hyn yn helpu i warchod rhag mesurau ystumiol neu gystadlu annheg, er enghraifft mewn marchnadoedd eiddo ac adeiladu.

2.2. Caiff swm yr ardrethi sy'n daladwy ei gyfrifo drwy gyfuno gwerth ardrethol eiddo, fel y caiff ei bennu'n annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, â'r lluosydd, a bennir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Y lluosydd ar gyfer 2019-20 yw 0.526.

2.3. Ceir oddeutu 120,000 o eiddo annomestig yng Nghymru sy'n cyfrannu oddeutu £1 biliwn mewn refeniw bob blwyddyn.

2.4. Caiff yr holl refeniw hwn ei ddosbarthu er mwyn cyllido gwasanaethau llywodraeth leol a heddlu yng Nghymru – gwasanaethau y mae pawb yn elwa arnynt. Er mwyn cynnal sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y cyllid hwn, mae'n iawn bod trethdalwyr sy'n gallu cyfrannu, yn cyfrannu'n deg.

2.5. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad o fwy na £230 miliwn i dalwyr ardrethi yng Nghymru. Caiff y rhyddhad hwn ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

**Rhyddhad Ardrethi i Elusennau**

2.6. O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, bydd eiddo yn gymwys i gael rhyddhad elusennol os yw’n berchen i elusen neu wedi'i feddiannu gan elusen, h.y. yn sefydliad a sefydlwyd at ddibenion elusennol; a bod yr eiddo’n cael ei ddefnyddio'n ‘gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol' fel y'u diffinnir gan Ddeddf Elusennau 2011.

2.7. At ddibenion cyfraith Cymru a Lloegr[1], ystyr 'diben elusennol' yw diben sydd yn dod o dan adran 3(1) o Ddeddf Elusennau 2011 ac sydd er budd y cyhoedd. Mae 'hyrwyddo addysg' a 'hyrwyddo iechyd neu achub bywydau' yn ddibenion elusennol yn unol ag adran 3(1).

---

[1] Adran 2 (Ystyr “dibenion elusennol”) yn Neddf Elusennau 2011 p.25

2.8. Ar y sail hon, mae'n bosibl y bydd ysgolion ac ysbytai yn gymwys ar gyfer rhyddhad i elusennau os gallant brofi eu bod wedi'u sefydlu at ddibenion elusennol a bod y diben hwnnw er budd y cyhoedd.

2.9. Ar hyn o bryd, mae rhyddhad elusennol gorfodol wedi'i bennu yn 80% o gyfanswm y rhwymedigaeth ar gyfer ardrethi annomestig, ac mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ddarparu rhyddhad ar gyfer rhan o'r 20% sy'n weddill, neu'r cyfan ohono, yn ôl eu disgresiwn.

2.10. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae rhyddhad i elusennau yn cyfrif am fwy na £60 miliwn o gymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i helpu sefydliadau i dalu eu biliau ardrethi annomestig. Mae ysgolion preifat ac annibynnol yn cael rhyddhad i elusennau o £1.4 miliwn ar hyn o bryd, tra bod ysgolion a gynhelir ac ysgolion sector cyhoeddus yn cael rhyddhad o £3.3 miliwn. Yn achos ysbytai, mae ysbytai preifat yn cael rhyddhad o £540,000 tra bod ysbytai sector cyhoeddus yn derbyn £100,000.

**Polisi Presennol ar draws y DU**

2.11. Cynigiodd Adolygiad Barclay ar Ardrethi Annomestig yn yr Alban argymhellion ar gyfer gwella'r system ardrethi annomestig yn yr Alban[2]. Diwygio a chyfyngu ar ryddhad i elusennau oedd un o'r rhain. Yn yr Alban, gall elusennau cofrestredig wneud cais i gael rhyddhad ardrethi o 80% fel y ceir yng Nghymru, gyda'r 20% sy'n weddill yn ddisgresiynol.

2.12. Nododd yr adroddiad fod sefydliadau hyd braich a weithredir gan awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol preifat yn gyrff lle dylid diwygio. Ers hynny, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno Bil Ardrethi Annomestig (yr Alban) gerbron Senedd yr Alban. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i dynnu rhyddhad i elusennau oddi wrth ysgolion annibynnol prif ffrwd. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ni fydd y Bil hwn yn effeithio ar ysgolion cerdd annibynnol nac ysgolion arbennig annibynnol.

2.13. Nid oes unrhyw awgrym o fwriad i wneud newidiadau i gymhwysedd ar gyfer rhyddhad elusennol yn Lloegr. Fel yng Nghymru, gall elusennau yn Lloegr gael rhyddhad gorfodol o 80%, gyda'r 20% sy'n weddill yn ddisgresiynol.

---

[2] Adolygiad ardrethi annomestig: Adroddiad Barclay https://www.gov.scot/publications/report-barclay-review-non-domestic-rates/

2.14. Yng Ngogledd Iwerddon, mae rhyddhad ardrethi i elusennau yn darparu eithriad llawn rhag y rhwymedigaeth i dalu ardrethi. Budd y cyhoedd o gymharu â budd preifat yw'r ffactor gwahaniaethol sylfaenol o ran cyfiawnhau rhoi triniaeth arbennig i elusennau a chyrff nid er elw eraill o dan y system ardrethi yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes unrhyw awgrym o gynlluniau i newid y rhyddhad ardrethi i elusennau ar gyfer ysgolion a/neu ysbytai.

**<u>Ysgolion Annibynnol a Phreifat</u>**

2.15. Cyfran fach o'r holl ysgolion yng Nghymru sy'n ysgolion annibynnol a phreifat. Mae ychydig dros 1,800 eiddo sydd wedi'u meddiannu gan ysgolion yng Nghymru. O'r rhain, mae oddeutu 70 wedi'u dosbarthu'n ysgolion annibynnol neu breifat. Yn nhermau prisio, mae ysgolion annibynnol a phreifat yn cyfrif am £4 miliwn o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl ysgolion yng Nghymru, sef £82 miliwn.

2.16. Nid yw gallu ysgolion annibynnol i godi refeniw drwy ffioedd a thaliadau yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mae'n briodol adolygu'r rhyddhad ardrethi a ddarperir a'r gofynion i gyfrannu at gost gwasanaethau lleol drwy ardrethi annomestig.

2.17. Nid yw pob eiddo ysgol annibynnol a phreifat yn cael rhyddhad elusennol. Mae cymhwysedd i gael rhyddhad yn ddibynnol ar statws elusennol yr ysgol. Pe bai rhyddhad yn cael ei dynnu oddi ar y 44% o ysgolion annibynnol a phreifat sydd yn gymwys i'w gael ar hyn o bryd, byddai hynny'n darparu cyllid ychwanegol o bron £1.4 miliwn ar gyfer gwasanaethau lleol yng Nghymru.

2.18. Mae'r ysgolion annibynnol a phreifat sy'n cael rhyddhad ardrethi'n amrywio o ran eu nodweddion, gan gynnwys eu maint, eu cymeriad crefyddol, defnydd o'r Gymraeg ac arddull addysgu. Mae rhai yn darparu gwasanaethau addysg arbenigol iawn.

**<u>Ysgolion a Gynhelir ac Ysgolion Sector Cyhoeddus</u>**

2.19. Yng Nghymru, mae mwy na 1,700 o ysgolion a gynhelir ac ysgolion sector cyhoeddus. Yn nhermau prisio, mae'r ysgolion hyn yn cyfrif am £78 miliwn o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl ysgolion yng Nghymru, sef £82 miliwn. Gyda'i gilydd, maent yn cyfrannu dros £37 miliwn mewn refeniw ardrethi bob blwyddyn.

2.20. Mae rhai ysgolion a gynhelir ac ysgolion sector cyhoeddus – llai na 10% o'r cyfanswm – yn cael rhyddhad ardrethi i elusennau. Mae'r gyfran yn is o lawer na'r gyfran ar gyfer ysgolion annibynnol a phreifat. Mae'r ysgolion cymwys yn derbyn mwy na £3 miliwn o ryddhad elusennol.

2.21. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion sy'n cael rhyddhad elusennol yn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sy'n golygu eu bod wedi sefydlu gan gyrff gwirfoddol ond y cânt eu cynnal gan awdurdod lleol. Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyir. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n cael rhyddhad elusennol yn gweithredu naill ai fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig.

2.22. Ceir hefyd nifer bach o ysgolion sefydledig sy'n cael rhyddhad elusennol. Mae ysgolion sefydledig hefyd yn derbyn cyllid gan eu hawdurdod lleol ond mae gan y corff llywodraethu fwy o ryddid i redeg yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn cynrychioli cyfran fawr o'r ysgolion uwchradd sy'n cael rhyddhad elusennol ac maent yn dueddol o fod yn eiddo mwy o faint.

**Ysbytai Preifat**

2.23. Ar hyn o bryd, mae 30 o eiddo yng Nghymru sydd wedi'u dosbarthu'n ysbytai preifat. Mae'r eiddo'n amrywio'n sylweddol o ran natur a maint. Yn nhermau prisio, mae ysbytai preifat yn cyfrif am £4 miliwn o'r gwerth ardrethol o £41 miliwn ar gyfer holl ysbytai Cymru.

2.24. Mae tua hanner yr ysbytai preifat yng Nghymru yn cael rhyddhad elusennol, gyda chyfanswm y rhyddhad a ddarperir i ysbytai preifat ychydig dros £500,000. Mae'r ysbytai sy'n cael rhyddhad yn dueddol o fod yn unedau gofal arbennig yn hytrach nag ysbytai preifat mwy a weithredir gan ddarparwyr yswiriant gofal iechyd.

2.25. Mae mwy na hanner yr ysbytai sy'n cael rhyddhad elusennol yn hosbisau sy'n darparu gofal diwedd oes. Mae eraill yn darparu gofal ar gyfer cyflyrau penodol, fel therapi sglerosis ymledol a gofal canser, ac mae rhai yn darparu gofal a chymorth yn benodol ar gyfer plant.

**Ysbytai Cyhoeddus**

2.26. Ar hyn o bryd, mae 115 eiddo wedi'u categoreiddio'n ysbytai cyhoeddus yng Nghymru at ddibenion ardrethu. Ar gyfartaledd, mae'r ysbytai hyn yn rhai mwy o faint ac mae ganddynt werth ardrethol uwch nag ysbytai preifat. Mae ysbytai cyhoeddus yn cyfrannu dros £19 miliwn mewn refeniw ardrethi bob blwyddyn.

2.27. Er nad yw'r mwyafrif o'r ysbytai cyhoeddus yn cael rhyddhad elusennol, mae nifer bach ohonynt, sef llai na 5% o'r cyfanswm, yn ei dderbyn. Mae'r eiddo hwn naill ai yn hyrwyddo addysg drwy ymchwil neu'n darparu gofal preswyl penodol. Nid oes unrhyw gyfleusterau gofal iechyd mawr yn y sector cyhoeddus sy'n cael rhyddhad elusennol. Mae cyfanswm y rhyddhad a ddyfernir i ysbytai cyhoeddus yn llai na £100,000.

**Sylwadau**

2.28. Hoffem glywed eich barn ar gymhwysedd ysgolion ac ysbytai ar gyfer rhyddhad elusennol ac ar yr effeithiau a allai fod yn gysylltiedig â gwneud unrhyw newidiadau. Mae ysgolion ac ysbytai'r sector cyhoeddus yn gweithredu er budd y cyhoedd, yn seiliedig ar anghenion pobl. Rydym yn cydnabod bod rhai ysgolion a chyfleusterau iechyd preifat, megis hosbisau ac ysgolion arbenigol, yn darparu gwasanaethau unigryw er budd y cyhoedd, a hynny'n seiliedig ar anghenion unigolion yn hytrach na'r gallu i dalu. Hoffem glywed eich barn ynghylch a ddylai rhai ysgolion ac ysbytai penodol gael eu trin yn wahanol at ddibenion rhyddhad elusennol.

2.29. Rydym hefyd am glywed eich barn ynghylch unrhyw eithriadau penodol y dylid eu gwneud pe bai Llywodraeth Cymru yn newid y cymhwysedd presennol ar gyfer rhyddhad elusennol. A fyddech cystal â darparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth sydd gennych i gefnogi eich atebion.

**C1 Yn eich tyb chi, a ddylai'r mathau canlynol o gyrff fod yn gymwys i gael rhyddhad elusennol ai peidio? Rhowch eich barn.**

- **i. Ysgolion annibynnol ac ysgolion preifat?**
- **ii. Ysgolion a gynhelir ac ysgolion sector cyhoeddus?**
- **iii. Ysbytai preifat?**
- **iv. Ysbytai cyhoeddus?**

**C2 Yn eich barn chi, a ddylai ysgolion ac ysbytai preifat sy'n gweithredu er budd y cyhoedd gael rhyddhad elusennol ai peidio? Rhowch resymau dros eich ymateb.**

**C3 Yn eich barn chi, pa egwyddorion y dylid eu defnyddio i ddiffinio a yw sefydliadau'n gweithredu er budd y cyhoedd?**

**C4 Ydych chi'n meddwl y dylid newid y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer rhyddhad elusennol? Os felly, sut?**

**C5 A ddylai fod gwahanol feini prawf ar gyfer rhyddhad elusennol i wahanol fathau o sefydliadau?**

**C6 Yn eich barn chi, a ddylai mathau penodol o ysgolion neu ysbytai barhau i fod yn gymwys i gael rhyddhad, ai peidio? Rhowch resymau dros eich ymateb.**

## 3. Y GYMRAEG

3.1. Mae ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015'. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gweithio tuag at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.2. Ceisir sylwadau am effeithiau cadarnhaol (cadarnhaol neu andwyol) y gallai newidiadau i ryddhad elusennol gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.3. Yn ogystal, gofynnwn am sylwadau ynghylch a fyddai modd llunio neu ddiwygio'r newidiadau i ryddhad elusennol er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu lai o effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**C7 Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau posibl y gallai diwygio rhyddhad elusennol eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**
- **i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;**
- **ii. peidio â thrin iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**C8 Eglurwch hefyd sut y gellid datblygu rhyddhad elusennol, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:**
- **i. effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
- **ii. ac nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**C9 A oes gennych unrhyw farn arall ar ryddhad elusennol mewn perthynas ag ystyriaethau iaith Gymraeg**?

## 4. HAWLIAU PLANT

4.1. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn darparu rhestr o'r hawliau sydd gan bob plentyn. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a nodir yn CCUHP. Hoffem glywed eich barn ar y ffordd y gallai newidiadau i ryddhad ardrethi i elusennau gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau plant, yn eich barn chi.

4.2. Rydym yn ymwybodol y gallai unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar ysgolion gael effaith ar blant a'u hawliau. Gan fod y mater yn ymwneud â chyllid ysgolion, rydym o'r farn nad yw'n briodol cynnal ymgynghoriad ar wahân i blant ar y mater hwn. Fodd bynnag, rydym yn ceisio ymgysylltu â chynrychiolwyr plant drwy'r broses ymgynghori er mwyn sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried.

**C10 Beth yw eich barn ar yr effeithiau y gallai newidiadau i ryddhad elusennol eu cael ar Hawliau Plant?**

**C11 Yn eich barn chi, beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau ar Hawliau Plant a allai godi**?

## 5. ARALL

5.1. Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rhyddhad ardrethi i elusennau a ddarperir i gefnogi ysgolion ac ysbytai â'u biliau ardrethi annomestig er mwyn sicrhau bod y system mor deg â phosibl.

5.2. Hoffem hefyd gael eich barn ar ddulliau eraill a allai helpu i sicrhau bod rhyddhad elusennol yn cael ei dargedu'n effeithiol, yn eich barn chi.

**C12 Yn eich barn chi, a oes unrhyw gamau eraill y gellid eu cymryd i wella tegwch y system rhyddhad elusennol**?

## 6. Y CAMAU NESAF

6.1. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 29 Mai. Yn ystod yr amser hwn, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar y materion a nodir yn y ddogfen hon.

6.2. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff yr holl ymatebion eu dadansoddi a chânt eu defnyddio i lywio penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud newidiadau i ryddhad elusennol yng Nghymru, ac os felly, pa newidiadau.

6.3. Mae'n debygol y bydd yn rhaid diwygio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwneud unrhyw newidiadau i ryddhad elusennol, a fyddai’n destun proses graffu gan y Cynulliad.

## FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

| | |
|---|---|
| **Eich enw:** | |
| **Sefydliad (os yw'n berthnasol)** | |
| **E-bost / Rhif ffôn:** | |
| **Eich cyfeiriad:** | |

**CWESTIYNAU**

| | |
|---|---|
| **C1** | **Yn eich tyb chi, a ddylai'r mathau canlynol o gyrff fod yn gymwys i gael rhyddhad elusennol ai peidio? Rhowch eich barn.** |
| **i.** | **ysgolion annibynnol ac ysgolion preifat?** |
| | |
| **ii.** | **ysgolion a gynhelir ac ysgolion sector cyhoeddus?** |
| | |
| **iii.** | **ysbytai preifat?** |
| | |
| **iv.** | **ysbytai cyhoeddus?** |
| | |
| **C2** | **Yn eich barn chi, a ddylai ysgolion ac ysbytai preifat sy'n gweithredu er budd y cyhoedd gael rhyddhad elusennol ai peidio? Rhowch resymau dros eich ymateb.** |
| | |
| **C3** | **Yn eich barn chi, pa egwyddorion y dylid eu defnyddio i ddiffinio a yw sefydliadau'n gweithredu er budd y cyhoedd?** |
| | |
| **C4** | **Ydych chi'n meddwl y dylid newid y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer rhyddhad elusennol? Os felly, sut?** |
| | |
| **C5** | **A ddylai fod gwahanol feini prawf ar gyfer rhyddhad elusennol i wahanol fathau o sefydliadau?** |
| | |
| **C6** | **Yn eich barn chi, a ddylai mathau penodol o ysgolion neu ysbytai barhau i fod yn gymwys i gael rhyddhad, ai peidio? Rhowch resymau dros eich ymateb.** |
| | |
| **C7** | **Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau posibl y gallai diwygio rhyddhad elusennol eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:** |
| **i.** | **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a** |
| | |
| **ii.** | **peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| | |
| **C8** | **Eglurwch hefyd sut y gellid datblygu rhyddhad elusennol, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:** |
| **i.** | **eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac** |

| | |
|---|---|
| | |
| **Ii** | **nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| | |
| **C9** | **A oes gennych unrhyw farn arall ar ryddhad elusennol mewn perthynas ag ystyriaethau iaith Gymraeg?** |
| | |
| **C10** | **Beth yw'r eich barn ar yr effeithiau posibl ar Hawliau Plant o ran rhyddhad ardrethi i elusennau ar gyfer ysgolion annibynnol ac ysgolion preifat ac ysbytai preifat?** |
| | |
| **C11** | **Beth yw eich barn ar yr effeithiau y gallai newidiadau i ryddhad elusennol eu cael ar Hawliau Plant?** |
| | |
| **C12** | **Yn eich barn chi, a oes unrhyw gamau eraill y gellid eu cymryd i wella tegwch y system rhyddhad elusennol**? |
| | |

Mae'r ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐